Cudd fy meiau rhag y werin

Caneuon Ffydd: Rhif 704

Cudd fy meiau rhag y werin,
cudd hwy rhag cyfiawnder ne';
cofia'r gwaed un waith a gollwyd
ar y croesbren yn fy lle;
yn y dyfnder
bodda'r cyfan sy yno' i'n fai.

Rho gydwybod wedi ei channu'n
beraidd yn y dwyfol waed,
cnawd a natur wedi darfod,
clwyfau wedi cael iachâd;
minnau'n aros
yn fy ninas fore a nawn.

Rho fy nwydau fel cantorion,
oll i chwarae'u bysedd cun
ar y delyn sydd yn seinio
enw Iesu mawr ei hun;
neb ond Iesu
fo'n ddifyrrwch ddydd a nos.

Gwna ddistawrwydd ar ganiadau
cras, afrywiog, hen y byd;
diffodd dân cynddeiriog natur
sydd yn difa gras o hyd,
fel y gallwyf
glywed pur ganiadau'r nef.

WILLIAM WILLIAMS, 1717–91

MYFYRDOD

'Neb ond Iesu' yw cri Williams Pantycelyn erbyn trydydd pennill yr emyn hwn, gan ei fod yn gweld na all neb arall fynd ati i guddio ei feiau rhag y rhai o'i gwmpas a rhag Duw ei hun hefyd, trwy ei waed ac yn nyfnder ei drugaredd, sydd yn ddigon dwfn i foddi popeth sydd ynddo'n fai. Ef sydd hefyd yn rhoi cydwybod lân iddo, ac yn gwneud i ganiadau'r byd ddistewi.

Mewn oes bur wahanol i un Pantycelyn, pan gawn ni fel Cristnogion ein hannog i osod ein Gwaredwr ochr yn ochr ag arweinyddion crefyddol mawr eraill, y mae'n rhaid inni wrthod pob ymdrech i'w osod ef fel un ymhlith llawer, neu hyd yn oed fel y gorau yn y ras. Mae ein Harglwydd Iesu Grist mewn dosbarth yn gyfan gwbl ar ei ben ei hun. 'Ymhlith a fu, neu ynteu ddaw, 'does debyg iddo fe', meddai Pantycelyn wrth gyhoeddi 'Mi dafla 'maich oddi ar fy ngwar' (493). Gwelai Iesu, nid yn unig fel y gorau a welodd y byd erioed, ond y gorau a wêl y byd byth. Yma eto

dywed pa mor anhepgorol ydy Iesu Grist, nad oes 'neb ond Iesu', a hynny nid yn unig yng nghyd-destun iachawdwriaeth ond ein bywyd i gyd yn gyffredinol. Mae am i'w nwydau oll, y cyfan sydd ynddo a'i ddoniau i gyd, gael eu gosod fel bysedd ar y delyn sy'n seinio enw Iesu mawr. Ef fydd yn ddifyrrwch iddo ddydd a nos.

Fe heriodd Iesu ei ddisgyblion fwy nag unwaith am eu perthynas ag ef ei hun. A gofiwch chi ei her i'r deuddeg ar ôl i eraill weld bod cost bod yn ddisgybl yn rhy uchel ei bris, a bod ei eiriau amdano'i hun mewn perthynas â bywyd tragwyddol ac atgyfodi ar y dydd olaf yn rhy galed i wrando arnynt: '"A ydych chwithau hefyd, efallai, am fy ngadael?"' (Ioan 6:67). Ac ar ôl iddo hefyd fod yn cyfeirio ato'i hun fel bara'r bywyd, yn ddigon i gyflenwi eu hanghenion dyfnaf i gyd, mae Pedr yn sylweddoli yn sydyn nad oedd neb i gystadlu ag ef ac mae'n siarad ar ran y disgyblion eraill i gyd pan mae'n mynegi eu hangen llwyr amdano: '"Arglwydd, at bwy yr awn ni? Y mae geiriau bywyd tragwyddol gennyt ti"' (Ioan 6:68). Ni allai neb arall wneud yr hyn y medrai Iesu ei wneud drostyn nhw; nid oedd 'neb ond Iesu'.

Ai fel rhywun pwysig a pherthnasol, neu fel rhywun cwbl anhepgorol y gwelwn ni Iesu? Pe baem ni'n colli gafael arno, a fedrai rhywun neu rywbeth arall gymryd ei le? A oes yna rywun heblaw Iesu yn abl i lenwi'n bryd?

GWEDDI

O Dad nefol llawn cariad, rho i mi wybod mor unigryw ydy dy Fab, ac mor anhepgorol ydyw ar gyfer fy mywyd. Pwy arall all roi geiriau'r bywyd tragwyddol inni? Neb ond Iesu. Amen.